

Dyma *dy* *Ddiwrnod
Agored*

**Dydd Sadwrn
9 Tachwedd 2019**

THE SUNDAY TIMES
CANLLAW
PRIFYSGOLION
DA
2020

PRIFYSGOL
Y FLWYDDYN
YNG NGHYMRU

Cynnwys

Gwybodaeth Bwysig

Teithio, Cyrraedd a Pharcio	3-4
Ffair Wybodaeth	5-9
Teithiau ac Ymweliadau	10
Rhaglen o Sgyrsiau	11-14

Gwasanaethau ac Adnoddau

Astudio Dramor	5
Canolfan y Celfyddydau	18
Coleg Cymraeg Cenedlaethol	5
Cwrs Hyfforddi Athrawon TAR	5
Derbyn Myfyrwyr	6
Dysgu Cymraeg	6
Dysgu Gydol Oes	6
Ffioedd Myfyrwyr	6-7
GwaithAber a Chydraddoldeb ac Amrywioldeb	7
Gwasanaeth Cymorth Myfyrwyr	7
Gwasanaeth Gyrfaoedd	7-8
Gwasanaethau Gwybodaeth	19
Llety	9 & 16-17
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	9
Myfyrwyr Rhyngwladol	9
Undeb y Myfyrwyr	21-22
Ysgol y Graddedigion	8
Y Ganolfan Gerdd	8-9
Y Ganolfan Chwaraeon	20
Ysgoloriaethau a Bwsariaethau	6

Adrannau a Chyrsiau

Addysg	23
Astudiaethau Gwybodaeth	24
Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu	25-26
Celfyddyd Gain a Hanes Celf	26
Cyfrifiadureg	27
Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd	28
Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear (yn cynnwys Cymdeithaseg)	29-30
Ffiseg	31
Gwleidyddiaeth Ryngwladol	32
Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff	33
Hanes a Hanes Cymru	33
IBERS (Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig)	34-35
Ieithoedd Modern	36
Mathemateg	37
Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol	38
Seicoleg	39
Y Gyfraith a Throsedddeg	40
Ysgol Busnes	41

Gwybodaeth Ddefnyddiol

Amserlen Bws	42-43
Prydau Bwyd a Lluniaeth	44
Holiadur y Diwrnod Agored	45
Map o Gampws Penglais a Champws Llanbadarn	46-47
Map o Dref Aberystwyth	48-49
Amserlen Bersonol	50



Gwaith Adeiladu

Mae'r Brifysgol yn gwella'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer myfyrwyr yn gyson, ac felly mae ychydig o waith adeiladu yn digwydd ar Gampws Penglais ar hyn o bryd. Ymddiheurwn am unrhyw anghyfleustra.

Diogelwch

Er eich lles eich hun, peidiwch a chyffwrdd unrhyw ddeunydd neu gyfarpar oni bai bod aelod o'r staff yn eich gofyn yn benodol i wneud hynny.

Mewn Argyfwng

Cysylltwch â'r aelod agosaf o'r staff yn syth.

Wrth glywed y larwm tân

Dylech fynd allan o'r adeilad trwy'r allanfa agosaf. Peidiwch â defnyddio'r lifftiau, ac arhoswch y tu allan hyd nes y bydd aelod o staff y Brifysgol yn dweud wrthydd ei bod yn ddiogel i chi ddychwelyd yn ôl i mewn.

Os byddwch yn gweld, clywed neu deimlo tân

Gwasgwch y larwm tân agosaf ac ewch allan o'r adeilad fel y nodir uchod.



Fframwaith
Rhagoriaeth
Addysgu

Wi-Fi am ddim

Wifi am ddim ar y campws yn ystod y
Diwrnod Agored.

Photograffau a Fideos

Mae'n bosib y bydd lluniau a fideos yn cael eu tynnu yn ystod y Diwrnod Agored at ddibenion cyhoeddusrwydd a marchnata. Hysbyswch aelod o staff os nad ydych am gael eich ffilmio/tynnu eich llun.



Croeso i Aberystwyth

Croeso cynnes iawn i Brifysgol Aberystwyth ac i ddigwyddiad sy'n un o'r croesffyrdd mawr ein bywydau. Mewn Diwrnod Agored byddi'n penderfynu ar dy drywydd ac ar y lle i dreulio dy flynyddoedd ffurfiannol fel myfyriwr israddedig. Mae'n bwysig gwneud y penderfyniad iawn i ti a dylai heddiw dy helpu i wneud hynny.

Yr hyn y byddwn i'n ei ddweud yn gyntaf yw bod angen dewis y cwrs sydd orau i ti. Cwrs sy'n ennyn dy chwilfryddedd ac yn mynd â thi i ble rwyd ti am fynd nesaf mewn bywyd. Gwna'n fawr o bob cyfle gei di heddiw i siarad â'r academyddion fydd yn dy ddysgu. Mae gennym ddarlithwyr rhagorol, ac mae nifer yn eu plith yn gwneud ymchwil arloesol. Arwydd o ansawdd y dysgu yma yw ein safon Aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwyr 2018. Ni hefyd yw Prifysgol y Flwyddyn yng Nghymru The Times / The Sunday Times Good University Guide am 2020. Mae'r wobwr ddiweddaraf hon yn golygu ein bod yn cael ein cydnabod gan y Canllaw am y drydedd flwyddyn yn olynol. Ym mis Medi 2018 enwyd Aberystwyth yn Brifysgol y Flwyddyn am Ansawdd y Dysgu, y brifysgol gyntaf i dderbyn y wobwr ddwy flynedd yn olynol.

Yn ail, cymer amser i gael golwg ar ein cyfleusterau ar y campws a gweld drosot dy hun safon uchel ein hystafelloedd dysgu lle rydym yn recordio darlithoedd er mwyn i ti fanteisio

arnyn nhw eto wrth adolygu. Cei wybod mwy hefyd am yr amrywiaeth o lety sydd gennym i'w gynnig - o Bantycelyn ar ei newydd wedd â'i hystafelloedd gwely cyfoes en-suite, i neuaddau glan môr â'u golygfeydd gwych dros Fae Ceredigion.

Wrth i ti gerdded o amgylch y campws, fe welir grysau-t melyn llachar ein Llysghenhaddon. Nhw yn anad neb fydd orau am ateb dy gwestiynau am astudio yma yn ogystal ag am fywyd cymdeithasol, cymdeithasau a chyfleusterau chwaraeon trawiadol Aber. Byddan nhw hefyd yn gallu dweud pam mai ni sydd ar y brig yng Nghymru ac yn un o'r prifysgolion gorau ym Mhrydain am fodlonrwydd cyffredinol yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfrwyr 2019.

Yn olaf, cyn ei throi hi am adre, bydden i'n awgrymu dy fod yn mynd am dro o gwmpas ein tref lan môr hanesyddol a mwynhau naws arbennig ein cymuned sydd yn gyfeillgar ond eto'n eangfrydig ac yn edrych allan ar y byd. Mentra am dro ar hyd y prom ac o gyrraedd y rheiliau wrth odre Craig Glais, rho gic i'r bar am lwc, yn ôl yr hen draddodiad.

Gobeithio y byddi di'n mwynhau dy ymweliad ag Aberystwyth. Mae'n lle i'r anturus, y chwilfrydig a'r creadigol. Rwy'n gobeithio y byddi di'n penderfynu hefyd mai dyma'r lle i ti.

**Yr Athro Elizabeth Treasure
Is-Ganghellor**



Gwybodaeth Bwysig

Teithio, Cyrraedd a Pharcio

Am wybodaeth fanwl ar sut i gyrraedd Aberystwyth ewch i'n tudalennau teithio: www.aber.ac.uk/cy/maps-travel

Campws Penglais

(CÔD POST: SY23 3BY)

I ymweld â'r rhan fwyaf o adrannau.

CYRRAEDD MEWN CAR

Dylech ddod i brif fynedfa Campws Penglais lle cewch eich cyfeirio i'r meysydd parcio sydd ar gael.

Mae'r holl leoedd parcio am ddim.

Bydd y lleoedd parcio ar Gampws Penglais a bydd gwasanaeth parcio a theithio rhad ac am ddim ym Mhentref Myfyrwyr (Pentre Jane Morgan). Gall ymwelwyr gerdded i'r Campws ar hyd y llwybr a nodwyd dros y bont droed o'r Pentref Myfyrwyr. Dylai'r daith gymryd tua 5-10 munud.

CYRRAEDD AR Y TRÊN

Bydd bysiau yn cyfarfod a'r trenau yng ngorsaf Aberystwyth am 9.20am, 11.20am, 12.20pm a 1.20pm. Bydd Llysghenhadon mewn crysau-T melyn wrth law i'ch helpu.

Er gwybodaeth, bydd trenau'r prynhawn yn gadael Aberystwyth am 1.30pm, 3.30pm, 5.30pm, 6.32pm a 7.30pm.*

Am ragor o wybodaeth gweler tudalennau 42-43.

*Amseroedd trenau yn gywir adeg cyhoeddi.

Angen gwefru'ch car trydan yn ystod y Diwrnod Agored?

Mae 4 gwefrydd pod-bwynt ar Gampws Penglais, sef:

- 2 wefrydd pod-bwynt 7kW ym maes parcio Llawr A Hugh Owen.
- 1 gwefrydd pod-bwynt 7kW ar gyfer deiliaid bathodyn glas yn unig ym maes parcio Llawr A Hugh Owen
- 1 gwefrydd pod-bwynt 7kW ym maes parcio'r Gwyddorau Ffisegol.
- Mae mwy o fanylion am y gwefryddion pod-bwynt i'w cael yma: <https://charge.pod-point.com/address/aberystwyth-university-g6er>

Mae gan y Brifysgol hefyd wefrydd cyflym (50kW) ym mhrif faes parcio arhosiad byr Penbryn.

Mae mwy o fanylion am y gwefryddion Chargemaster i'w cael yma:

<https://chargenow.chargemasterplc.com/map>

Siaradwch â'r tîm croesawu wrth fynedfa Campws Penglais os bydd angen cymorth arnoch ar y diwrnod.

Cymorth i fyfyrwyr ac ymwelwyr anabl

Os oes gyda chi neu unrhyw un sy'n dod gyda chi anabledd, anawsterau symud neu os oes angen gwneud unrhyw drefniadau penodol ffoniwch +44 (0) 1970 622065 neu cysylltwch â diwrnodagored@aber.ac.uk

Mae Canllawiau Mynediad i adeiladau a llwybrau ym Mhrifysgol Aberystwyth ar gael trwy ein partneriaeth â AccessAble. Am fwy o wybodaeth ewch i: www.accessable.co.uk/organisations/aberystwyth-university

Eich Diwrnod Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth

Wrth Gyrraedd

Desgiau Cofrestru a Desgiau Gwybodaeth

Canolfan y Celfyddydau,
Campws Penglais, SY23 3DE (2)

> 9.00am - 4.00pm

DESGIAU COFRESTRU

Evch at y Desgiau Cofrestru a'r Desgiau Gwybodaeth yng Nghanolfan y Celfyddydau ble bydd ein tîm croesawu yn eich cofrestru, ac ar gael i roi cyfarwyddiadau a chynnig cyngor ar sut i fanteisio i'r eithaf ar eich ymweliad.

Gall darpar fyfyrwyr gofrestru unrhywbryd rhwng **9.00am** a **4.00pm**.

DESGIAU GWYBODAETH

Yma cewch raglenni, mapiau a'r wybodaeth ddiweddaraf. Mae croeso i chi ddefnyddio'r Desgiau Gwybodaeth fel man cyfarfod a man cyswllt neu i adael negeseuon.



Pecyn Gwybodaeth Athrawon ac Ymgynghorwyr

Gall athrawon nôl eu pecynnau gwybodaeth o'r Desgiau Gwybodaeth.

Yn ystod eich diwrnod, gwnewch amser i



Gofrestru yng **Nghanolfan y Celfyddydau, Campws Penglais (2)**



Alw heibio'r Ffair Wybodaeth yn y Neuadd Fawr yng Nghanolfan y Celfyddydau (tudalennau 5-9)



Ymweld ag adrannau academiaidd - Cyfle i gyfarfod staff a myfyrwyr a chael rhagor o wybodaeth am ein cyrsiau, y cyfleusterau a'r arbenigedd ymchwil (ceir rhestr o raglenni'r adrannau ar dudalennau 23-41)



Mynychu cyflwyniadau cyffredinol a chyflwyniadau am bynciau penodol er mwyn cael rhagor o wybodaeth am fywyd myfyrwyr, y cyfleoedd a'r gefnogaeth sydd ar gael ym Mhrifysgol Aberystwyth (tudalennau 11-14)



Gweld y campws a'r dref trwy fynd ar un o'r teithiau tywys a gynhelir trwy gydol y dydd (tudalen 10)



Cael rhagor o wybodaeth am lety'r Brifysgol (tudalennau 9, 16-17)



Mwynhau seibiant yn un o'n caffis, bariau neu ym mwyty TaMed Da, sydd wedi ennill gwobrau (tudalen 44)



Tynnu lluniau i'ch atgoffa am y diwrnod.

Cofiwch nôl taleb o'r Desgiau Croesawu er mwyn cael paned a chacen AM DDIM!

BYDD EIN LLYSGENHADON YN Y CRYSAU-T MELYN AR GAEL TRWY GYDOL Y DYDD I ATEB UNRHYW YMHOLIADAU AC I ROI CYFARWYDDIADAU I CHI.

Mae'r desgiau gwybodaeth yng Nghanolfan y Celfyddydau ar agor tan 4:00pm - mae croeso i chi alw heibio ar unrhyw adeg yn ystod eich ymweliad!

Ffair Wybodaeth

Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau ² | 9.00am-3.30pm

Astudio Dramor

 @AU_StudyAbroad

Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau ²

Mae cynllun Erasmus yn rhoi cyfle i fyfyrwyr fynd am gyfnod i astudio mewn gwlad arall yn Ewrop. Mae Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol yn gyfle i dreulio un neu ddau semester mewn nifer gynyddol o brifysgolion amlwg yn America, Canada, Awstralia a Hong Kong ymhlith eraill.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau wedi'r Diwrnod Agored ebostiwch studyabroad@aber.ac.uk

STUDY ABROAD INFORMATION SESSION

Rhaglen Erasmus a'r Rhaglen Cyfnewid Rhyngwladol. Clywed am y cyfleoedd i astudio dramor sy'n aros amdanoch ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Sinema, Canolfan y Celfyddydau ²

> 11.30am - 11.50am

Coleg Cymraeg Cenedlaethol – Cangen Aberystwyth

 @CangenAber



Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau ²

Os ydych yn siaradwr Cymraeg cofiwch alw heibio'r stondin lle gallwch ddod o hyd i bob math o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg yn y Brifysgol.

Cewch wybodaeth am gyrsiau a modiwlau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a holi unrhyw gwestiynau sydd gennych am unrhyw agwedd o astudio a byw drwy gyfrwng y Gymraeg yn Aberystwyth.

ABER, Y GYMRAEG A TI!

BYW AC ASTUDIO YM MHRIFYSGOL ABERYSTWYTH DRWY'R GYMRAEG

Estynnwn groeso cynnes i ddarpar fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg, dysgwyr a'u teuluoedd, i gwrdd am sgwrs â darlithwyr a myfyrwyr y Brifysgol. Dyma gyfle i glywed am fanteision astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Brifysgol, sy'n cynnwys ysgoloriaethau Astudio Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol ac ysgoloriaethau'r Coleg

Cymraeg Cenedlaethol, a chynlluniau Pantycelyn a fydd yn ailagor ym Medi 2020. Cewch hefyd glywed am fywyd cymdeithasol bywiog a byrlymus y Brifysgol. Darperir paned a chacen.

Y Stiwdio, Canolfan y Celfyddydau ²

> 1.00pm-1.45pm

Cwrs Hyfforddi Athrawon TAR yn Aberystwyth

 @EducationAtAber

Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau ²

Mae'r Ysgol Addysg yn cynnig hyfforddiant uwchraddedig i athrawon a Statws Athro Cymwysedig ar lefel ysgol cynradd ac ar gyfer y pynciau canlynol ar lefel ysgol uwchradd: Bioleg, Cemeg a Ffiseg (pob un gyda Gwyddoniaeth Gytbwys), Mathemateg, Ieithoedd Modern (Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg), Saesneg, Daearyddiaeth, Hanes a Drama. Mae hwn yn gwrs newydd, integredig sydd wedi'i ddyfeisio a'i gynllunio mewn partneriaeth ag ysgolion. Mae'r cwrs yn cynnig y cyfle i ennill profiad ar draws dau gyfnod, sy'n rhoi'r myfyrwyr mewn sefyllfa i fod yn athrawon gwybodus a hyblyg. Treulir rhan fwyaf y cwrs mewn ysgol ac mae myfyrwyr hefyd yn cwblhau eu prosiectau ymchwil eu hunain yn ogystal â dysgu am gynllunio, rheoli dosbarth ac asesu. Cynigir yr holl bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg, a threfnir y Profiad Ysgol (ymarfer dysgu) mewn ysgolion lle defnyddir yr iaith briodol.

Bydd staff wrth law i roi cyngor cyffredinol am lwybrau addas i mewn i hyfforddiant athrawon yn ogystal ag am y cwrs ei hun, felly os ydych yn ystyried gyrra addysgu ond heb fod yn gwbl sicr, cofiwch ddod i'n gweld.

MAKE A DIFFERENCE: TRAIN TO TEACH

P5 ³⁰

> 12.30pm - 1.00pm

Cyfeiriadur y Ffair Wybodaeth 9.00am-3.30pm

Derbyn Myfyrwyr (Israddedig) ac Ysgoloriaethau & Bwsariaethau

Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau ②

Bydd cynrychiolwyr o'r Swyddfa Dderbyn Israddedig ar gael i roi cyngor ar ein polisiau derbyn israddedig, meini prawf mynediad a llwybrau ymgeisio. Os ydych chi'n gwneud cais i'r Brifysgol ac yn cael cynnig i astudio gyda ni, cewch eich gwahodd i Ddiwrnod Ymweld i Ymgeiswyr - cyfle gwych arall i weld a dysgu mwy am yr adran(nau) yr ydych wedi ymgeisio iddynt.

Dewch i ddarganfod mwy am yr amryw o wobrau hael sy'n cael eu cynnig i'ch helpu gyda'ch costau byw. Bydd copïau o lyfryn Cymorth Ariannol a Gwobrau ar gael wrth y ddesg.

Croeso gan yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor ac yna 'A GUIDE TO ADMISSIONS POLICIES AND SCHOLARSHIPS' 

Bydd cyfle i ofyn cwestiynau.

Theatr, Canolfan y Celfyddydau ②

➤ 9.00am - 9.25am, 9.45am - 10.10am a 10.30am - 10.55am

Derbyn Myfyrwyr (Uwchraddedig)

Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau ②

Bydd cynrychiolwyr o'r Swyddfa Dderbyn Uwchraddedig ac Ysgol y Graddedigion ar gael drwy'r dydd i'ch croesawu i Aberystwyth ac i'ch cynghori ar eich cyfleoedd wedi i chi raddio. Byddwn yn egluro'r meini prawf ar gyfer astudiaethau uwchraddedig yn Aberystwyth a'ch cynghori ar y broses o wneud cais, er mwyn i chi gyfarwyddo â'r amserlen. Bydd myfyrwyr uwchraddedig presennol ar gael i fynd a chi ar daith o amgylch y campws. Gweler tudalen 10 am wybodaeth pellach.

Dysgu Cymraeg

 @learnwelshCP

Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau ②

I ddysgu Cymraeg gyda ni, gallwch ddysgu o'r newydd, neu wella eich gwybodaeth o'r iaith.

Mae cyrsiau wythnosol ar gael (ar bob lefel) yn dechrau bob mis Hydref yn Aberystwyth a ledled Ceredigion.

Mae cwrs dwys 4 wythnos yn rhedeg yn Aberystwyth bob mis Awst, ac mae cyrsiau byrion (1-3 diwrnod) ar gael drwy'r flwyddyn. Ewch i'n gwefan sy'n rhestru pob cwrs Dysgu Cymraeg ar draws Cymru: www.dysgucymraeg.cymru.

Dysgu Gydol Oes

 @Aber_LLL

Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau ②

Mae sawl rheswm pam y dylech fanteisio ar y cyfle i gofrestru ar gwrs Dysgu Gydol Oes. Cynigir y cyrsiau hyn yn ychwanegol at eich gradd a gellir eu gwneud heb amharu ar eich amserlen. Mae'r cyrsiau'n rhoi cyfle i chi ddysgu rhywbeth gwahanol, cymryd diddordeb newydd, datblygu sgil neu iaith, a gwella'ch potensial o safbwynt gyrfa.

Mae Dysgu Gydol Oes yn cynnig cyrsiau byr achrededig ar lefel Addysg Uwch i bawb: yn Israddedigion, Uwchraddedigion, staff y Brifysgol ac aelodau o'r cyhoedd.

Mae'r cyrsiau ar gael mewn gwahanol feysydd:

Celf a Dylunio Llenyddiaeth ac Ysgrifennu Creadigol Hanes ac Achyddiaeth Ieithoedd Modern	Ecoleg a Chadwriaeth Ffotograffiaeth Seicoleg ac Athroniaeth
---	--

Mae Dysgu Gydol Oes yn darparu addysgu a dysgu o ansawdd uchel, ac yn cynnig cyrsiau i wella'ch cyflogadwydd ac i wneud y gorau o'ch amser yn y Brifysgol. Os ydych chi'n fyfyrwr israddedig neu ôl-raddedig rydych yn gymwys ar gyfer y gyfradd consesiwn ac mae llawer o gyrsiâu a ymgirir i chi yn **rhad ac am ddim**.

Gallwch weld yr holl gyrsiâu sydd ar gael yma: www.aber.ac.uk/en/lifelong-learning/courses/

A'r cyrsiau sydd am ddim i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig yma: www.aber.ac.uk/en/lifelong-learning/freecourses/

LIFELONG LEARNING: SHORT COURSES Y Stiwdio, Canolfan y Celfyddydau ②

➤ 11.00am - 11.20am

Ffioedd Myfyrwyr

Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau (2)

Bydd staff o'r Swyddfa Gyngor, Gwybodaeth ac Arian a Swyddfa Ffioedd Myfyrwyr wrth law i roi cyngor a gwybodaeth ac i drafod opsiynau talu. Galwch draw i stondin Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr neu Ffioedd Myfyrwyr yn yn y Ffair Wybodaeth rhwng 9.00am a 3.30pm.

FEES AND LOANS

Darlithfa A14, Adeilad Hugh Owen (4)

> 1.30pm - 1.50pm

GwaithAber a Chydraddoldeb ac Amrywioldeb

Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau (2)

Mae GwaithAber yn gyfle i fyfyrwyr ennill arian wrth ddysgu. Ceir cyfleoedd gwaith mewn amryw o adrannau – arlwyio, gwaith gweinyddol, swyddogaethau Llysgenhaddon a mwyr. Os bydd gwaith ar gael yn ystod tymor y Brifysgol, efallai y byddwch yn dewis gweithio hyd at 15 awr yr wythnos, gyda'r posibilrwydd am ragor o oriau gwaith yn ystod y gwyliâu. Gallwch ddewis derbyn gwaith sy'n cyd-fynd â'ch amserlen. Bydd y cyflog yn ddibynnol ar y swydd a gall lleoliad y gwaith fod ar unrhyw un o gamypsau'r Brifysgol.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i ddatblygu a hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb ym mhob agwedd ar ein hymarfer a'n gweithgareddau. Ein nod yw gweithio ac astudio, gan ddarparu diwylliant cynhwysol, heb wahaniaethu, ac arddel parch, urddas a chwarteisi. Mae gan bawb yr hawl i gael eu trin yn unol â'r gwerthoedd hyn. Ceisiwn sicrhau bod y myfyrwyr, y staff ac ymwelwyr yn cofleidio cydraddoldeb ac amrywioldeb fel rhan hanfodol o'r ffordd y gweithredwn ac ymgorffori'r ffordd hon o weithio ym mhopeth a wnawn. Galwch draw i'n gweld.

Gwasanaeth Cyngor Myfyrwyr

Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau (2)

Gwasanaeth Cyngor Myfyrwyr

Mae ein Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian i Fyfyrwyr yn rhoi cymorth ar amrywiaeth eang o faterion. Gall ein Hymgynghorwyr, sydd wedi'u hachredu gan NASMA (Cymdeithas Genedlaethol Cyngorwyr Ariannol Myfyrwyr), eich cynghori hefyd am unrhyw faterion yn ymwneud â llety, cynnydd academiaidd a gweithdrefnau'r Brifysgol.

Gwasanaeth Hygyrchedd

Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i gynnal cymuned sy'n hygyrch i bawb a chroesewir ceisiadau gan fyfyrwyr anabl a'r rhai sydd â gwahaniaethau dysgu penodol. Gofynnwn i chi ystyried gofynion eich dewis gwrs ac unrhyw elfennau a allai achosi anawsterau penodol cyn gwneud cais. Rydym yn argymhell eich bod yn ymweld â'r campws a'r adran i ymchwilio i'r cymorth a allai fod ar gael. Byddai ein Hymgynghorwyr Hygyrchedd yn barod iawn i'ch helpu cyn i chi wneud cais. Rydym hefyd yn argymhell eich bod yn cysylltu â'r Ymgynghorwyr Hygyrchedd i drafod asesiad gofynion astudio ac i gael cyngor am grantiau megis y Lwfans Myfyrwyr Anabl. I fyfyrwyr sy'n gymwys, gall ein hymgynghorwyr drefnu gweithwyr cymorth, gan gynnwys cymorth sgiliau astudio un-i-un, ac mae'n bosibl y gall trefniadau arholiadau unigol fod ar gael i fyfyrwyr sydd ag amrywiaeth o namau gan gynnwys gwahaniaethau dysgu penodol megis dyslecsia a dyspracsia. Gall ein Gwasanaeth Hygyrchedd hefyd roi cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal.

Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr

Rydym yn gweithio'n agos â'r meddygon lleol, yr ysbyty a'r gwasanaethau iechyd meddwl, ac yn ymroddedig i gefnogi eich iechyd a'ch lles emosïonol trwy gydol eich astudiaethau.

Mentora 'Ffordd Hyn'

Mae 'Ffordd Hyn' yn gynllun mentora cyfeillgar a chyfrinachol gan gyd-fyfyrwyr ar gyfer pob myfyrwr israddedig newydd, yn cynnig cyngor unigol i'ch helpu chi i ymgartrefu yn y brifysgol, cynllunio ar gyfer y dyfodol, a gwneud y gorau o'ch amser yn y brifysgol.

Gwasanaeth Gyrfaoedd

@abercareers

Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau (2)

Prif bwrpas y Gwasanaeth Gyrfaoedd yw cynorthwyo'n myfyrwyr i ddatblygu eu hunanymwybyddiaeth, eu brwdfrydedd ac agwedd positif i'w helpu i ddeall yr amrywiaeth o sgiliau, profiadau, galluoedd ac arbenigedd y maent yn eu meithrin yn ystod eu hamser yn y Brifysgol.

Ein nod yw cydweithio ag eraill ym mhob rhan o'r sefydliad i ddarparu amrywiaeth o brofiadau i'n myfyrwyr a fydd yn eu helpu i ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u gallu. Gyda'r sgiliau hynny, rydym ni'n helpu ein myfyrwyr i ddeall sut y gallant fod yn fwy effeithiol yn eu hastudiaethau academiaidd yn ogystal â bod yn fwy cystadleuol pan fyddant yn gwneud

ceisiadau am gyfleoedd gwaith yn y dyfodol. Yn y cyswllt hwnnw, rydym yn darparu cyngor a chanllawiau manwl am eu dewisiadau gyrfaoal ac er mwyn deall beth fydd y farchnad waith yn ei gynnig yn y dyfodol.

I sicrhau bod hyn yn digwydd, rydym yn gweithio'n agos gyda'r adrannau academiaidd i gynnig addysg yrfaol berthnasol ym mhob pwnc. Rydym yn gweinyddu ystod eang o gyfleoedd profiad gwaith ac rydym yn trefnu i gyflogwyr a sefydliadau gwaith ymweld â'r Brifysgol er mwyn meithrin cysylltiadau â'n myfyrwyr ar y campws. Rydym hefyd yn cydweithio ag Undeb y Myfyrwyr er mwyn sicrhau bod yr holl weithredoedd sy'n gysylltiedig â gwaith yn cael eu cydnabod fel profiad gwerthfawr a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau.

Dewch i siarad â ni i gael mwy o wybodaeth am: sut y bydd pwnc eich gradd yn ddefnyddiol yn y farchnad waith yn y dyfodol, y Cynllun Blwyddyn Mewn Gwaith, swyddi lleol, swyddi i raddegigion, dewis y swydd neu'r opsiwn sy'n addas i chi, lleoliadau gwaith AberYmlaen, cyfleoedd mentora gyda chyn-fyfyrwyr, sesiynau gyda chyflogwyr a llawer mwy.

Ysgol y Gradddegigion

Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau ②

Bydd Ysgol y Gradddegigion yn cefnogi pob agwedd ar eich cyfnod yn Aberystwyth ac yn gwella eich profiad fel myfyriwr uwchraddedig yma drwy: oruchwylio datblygiad pellach ar brosiectau ymchwil; sicrhau cyfleusterau ar gyfer uwchradddegigion; darparu Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr, rhaglen gwella gyrfaoedd, a hyfforddi athrawon mewn Addysg Uwch.

Cydnabyddir ein rhagoriaeth mewn ymchwil drwy'r Fframwath Rhagoriaeth Ymchwil 2014 (www.ref.ac.uk). Rydym hefyd yn cydweithio gyda nifer o fentrau â ariannir gan Gyngor Ymchwil y DU i hyfforddi myfyrwyr ymchwil. Mae ysgoloriaethau llawn yn cael eu rhoi trwy'r rhaglenni hyn. Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnig ysgoloriaethau drwy'r Gystadleuaeth Ysgoloriaethau AberDoc.

RHAGLEN DATBLYGU YMCHWILWYR

Bwriad ein Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr yw mynd i'r afael â gwahanol agweddau ar y Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae (www.vitae.ac.uk). Mae'n cynnwys cyfres neu fodiwlau generig a phenodol i bwnc i'ch helpu i gwblhau eich astudiaethau a hybu eich gyrfa. Mae'n

cwmpasu agweddau megis moeseg, dulliau meintiol ac ansoddol, ymgysylltu â'r cyhoedd, effaith ymchwil, ysgol ysgrifennu, paratoi at viva ac arweinyddiaeth. Mae Ysgol y Gradddegigion hefyd yn cynnal rhaglen Dulliau Ymchwil Uwch sy'n ymdrin â phynciau penodol.

Mae Ysgol y Gradddegigion wedi ymrwymo i gynnig cyfran o sesiynau'r Rhaglen Ddatblygu trwy gyfrwng y Gymraeg, ni chynigir rhaglen gyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys modiwlau hyfforddiant ymchwil, sesiynau cynefino a sesiynau datblygu gyrfa. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Ysgol.

RHAGLEN GWELLA GYRFAOEDD

Mae ein rhaglen gwella gyrfaoedd yn rhoi'r gefnogaeth i chi gysylltu eich astudiaethau â chyrrff allanol nad ydynt yn rhai academiaidd. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys ystod o gyfleoedd e-mentora a chyfleoedd ar leoliad, ac fe gewch gefnogaeth gref gan Wasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol.

DYSGU MEWN ADDYSG UWCH

Er mwyn cefnogi uwchradddegigion sy'n cyfrannu at agweddau addysgu'r Brifysgol, rydym wedi datblygu rhaglen hyfforddi athrawon sy'n rhoi ystod o sgiliau addysgu i chi, a hynny'n amrywio o sesiynau tiwtorial i ddarlithoedd ac asesu. Yn ogystal, mae'r Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academiaidd yn rhedeg Rhaglen Addysgu ym Mhrifysgol Aberystwyth, sy'n anelu at ddatblygu sgiliau addysgu myfyrwyr uwchraddedig sy'n addysgu yn eu hadrannau, ac mae wedi'i achredu gan yr Academi Addysg Uwch yn y DU. Bydd y rhai sy'n cwblhau'r rhaglen yn dod yn Gymrawd Cyswllt yr Academi Addysg Uwch. Mae'r Brifysgol yn gryf ei chefnogaeth i'r siarter cyflogaeth uwchraddedig.

EICH CEFNOGI CHI

Mae Ysgol y Gradddegigion yn bodoli i gefnogi uwchradddegigion yn eu hastudiaethau, ac i wella y profiad academiaidd yn ystod eich cyfnod yn Aberystwyth. Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch eich astudiaethau, dewch i ofyn am ein cyngor a'n cymorth.

DISCOVERING MASTERS AND PHD

Bydd y sesiwn hwn yn darparu cyfle i chi glywed gan staff a myfyrwyr uwchraddedig presennol ynglyn â'u profiadau o astudio ar lefel uwchraddedig.

Sinema, Canolfan y Celfyddydau ②

> 2.00pm - 2.30pm

Y Ganolfan Gerdd

Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau (2)

Os ydych yn chwarae offeryn, yn canu neu'n mwynhau gwrando, cymerwch olwg ar raglen gerddorfaol, band a chorawl y Ganolfan Gerdd. Mae gan y Ganolfan adnoddau ymarfer a chynigir hyfforddiant unigol. Mae Ysgoloriaethau Cerdd ar gael i rai sy'n canu a/neu'n chwarae offeryn cerddorfaol neu offeryn band i safon uchel. Dewch draw i'n gweld ni ar ein stondin yn y Ffair Wybodaeth. www.aber.ac.uk/cy/music

Llety

Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau (2)

Desg Wybodaeth a deunydd arddangos yn ymwneud â Llety yn Aberystwyth. Bydd staff wrth law rhwng 9.00am-3.30pm i ateb ymholiadau ynglŷn â phreswylfeydd neu lety yn y sector breifat. Am wybodaeth ynglŷn â'r ymweliadau llety sy'n rhedeg yn ystod y dydd, ewch i dudalennau 16-17.

YOUR HOME FROM HOME

Sgwrs ar ddarpariaeth llety Prifysgol Aberystwyth.

Darlithfa A12, Adeilad Hugh Owen (4)

- > 10.10am – 10.40am, 11.10am – 11.40am a
1.10pm – 1.40pm

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

 @LLGCymru

Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau (2)

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn croesawu myfyrwyr Aberystwyth i fwynhau ei chyfleusterau ac elwa o'r cyfoeth o ffynonellau sydd ar gael yno. Mae'n un o chwe llyfrgell adnau cyfreithiol ym Mhrydain sy'n golygu fod gan y Llyfrgell hawl i gopi o bob cyhoeddiad printiedig o Brydain ym mha bynnag iaith ac ar ba bynnag bwnc.

Mae mynediad i'r Llyfrgell am ddim ac mae'n syml iawn i fyfyrwyr ymuno fel darllenwyr. Mae'r holl ystafelloedd darllen yn cynnig y cyfleusterau mwyaf modern a mynediad di-wifr am ddim i bawb.

Yn ogystal â rhyw 6 miliwn o lyfrau a chylchgronau mae'r Llyfrgell hefyd yn gartref i dros filiwn a hanner o fapiau, 950,000 ffotograff, y llawysgrifau Cymraeg cynharaf megis Llyfr Du Caerfyrddin a llawysgrifau amhrisiadwy fel yr Hengwrt Chaucer. Mae hefyd yn cynnwys casgliad unigryw'r Archif Wleidyddol Gymreig a hefyd Archif Sgrin a Sain Cymru.

Ond nid dim ond cyfleusterau a chasgliadau academaidd rhagorol sydd i'w canfod yn y Llyfrgell. Mae hefyd yn cynnal arddangosfeydd, ffilmiau, cynadleddau, cyngerddau a sgysiau yn awditorïwm y Llyfrgell, y Drwm. Mae Caffi Pen Dinas y Llyfrgell yn cynnig amrywiaeth eang o fwyd ac mae'r siop yn gwerthu llyfrau a rhoddion o ansawdd uchel.

Dewch draw i stondin y Llyfrgell am sgwrs – bydd ein staff yn barod iawn i'ch helpu ac i ateb unrhyw gwestiynau.

Oriau agor yr ystafelloedd darllen
Llyfrgell Genedlaethol:

- > 9.30am – 6.00pm (Llun - Gwener)
9.30am – 5.00pm (Sadwrn)
www.llyfrgell.cymru

Myfyrwyr Rhyngwladol

 @AberUni_Intl

Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau (2)

Mae croeso i fyfyrwyr rhyngwladol alw heibio stondin 'Astudio Dramor' i gyfarfod y staff ac i ofyn cwestiynau.

E-bostiwch international@aber.ac.uk os oes gennych gwestiynau penodol.

Teithiau ac Ymweliadau

Teithiau Campws Penglais

Bydd myfyrwyr yn arwain Teithiau o gwmpas y Campws (trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg), a fydd yn para tua 40 munud. Bydd y teithiau yn dechrau tu allan Canolfan y Celfyddydau ②

> 10.00am, 11.00am, 12.00pm, 1.00pm, 2.00pm a 3.00pm.

Ymweld â'r Llety ②

Mae manylion llawn ar gael o'r Ddesg Llety yn y Ffair Wybodaeth, Canolfan y Celfyddydau. Am ragor o fanylion gweler tudalennau 16-17.

Teithiau Adrannol

Gweler testun Adrannau am deithiau penodol (tudalennau 23-41).

Llyfrgell Hugh Owen ④

Rydym yn cynnal teithiau llyfrgell byr i ymwelwyr yn Llyfrgell Hugh Owen rhwng 9.00am a 3.00pm yn ystod y Diwrnod Agored, gofynnwch wrth y Ddesg Ymholiadau.

Y Ganolfan Chwaraeon ⑨

Bydd staff wrth law i ateb cwestiynau, a'ch dangos o gwmpas.

Undeb y Myfyrwyr ⑫

Bydd aelodau o dîm UMAber ar gael trwy gydol y dydd i fynd â chi ar daith o amgylch yr adeilad ac i sgwrsio am weithgareddau a gwasanaethau'r Undeb a sut mae'r Undeb yn cynrychioli myfyrwyr (yn para oddeutu 15 munud). Galwch wrth y dderbynfa am y cyfle perffaith i ofyn cwestiynau ac i wybod mwy am fywyd yn Aberystwyth.

Taith Bws o Amgylch Tref Aberystwyth

> 1.00pm

Bydd bws yn gadael safle bws Campws Penglais ac mae'r daith yn para oddeutu 20-30 munud.



Sgyrsiau Cyffredinol

Sgyrsiau	Pryd?	Ble?
Croeso i Brifysgol Aberystwyth a Derbyn Myfyrwyr ac Ysgoloriaethau (Israddedig)		
Croeso gan yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor ac yna A Guide to Admissions Policies and the range of Scholarships and Bursaries we offer	9.00am-9.25am 9.45am - 10.10am a 10.30am-10.55am	Theatr, Canolfan y Celfyddydau (2)
Llety		
Your Home from Home	10.10am-10.40am, 11.10am-11.40am a 1.10pm-1.40pm	Darlithfa A12, Adeilad Hugh Owen (4)
Dysgu Gydol Oes: Cyrsiau Byr		
Lifelong Learning: Short courses to enhance your employability and broaden your studies	11.00am-11.20am	Y Stiwdio, Canolfan y Celfyddydau (2)
Astudio Dramor		
Rhaglenni Cyfnewid ac Erasmus. Dewch i ddarganfod pa gyfleoedd astudio dramor sydd yn eich disgwyl ym Mhrifysgol Aberystwyth!	11.30am-11.50am	Sinema, Canolfan y Celfyddydau (2)
Aber, y Gymraeg a ti!		
Cyflwyniad i ddarpar fyfyrwyr ar fyw ac astudio drwy'r Gymraeg. Croesawir siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a'u teuluoedd. Darperir lluniaeth ysgafn.	1.00pm-1.45pm	Y Stiwdio, Canolfan y Celfyddydau (2)
Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian		
Fees and Loans	1.30pm-1.50pm	Darlithfa A14, Adeilad Hugh Owen (4)
Astudiaethau Uwchraddedig		
Discovering Masters and PhD	2.00pm-2.30pm	Sinema, Canolfan y Celfyddydau (2)

Sgyrsiau Adrannol

Mae manylion gweithgareddau ychwanegol i'w gweld ar dudalennau'r Adran ei hun (tud. 23-41)

Sgyrsiau	Pryd?	Ble?
ADDYSG AC ASTUDIAETHAU PLENTYNODD		
Undergraduate Degrees in Education and Childhood Studies at Aberystwyth	10.00am-10.30am	Darlithfa A14, Adeilad Hugh Owen ④
	12.40pm-1.10pm	Sinema, Canolfan y Celfyddydau ②
Mini-seminar: But is Education a real subject?	10.50am a 1.30pm	P5 ③①
Mini-seminar: Could you be an Early Years Practitioner?	11.20am - 11.40am a 2.30pm - 2.50pm	
Mini-seminar: Why study childhood?	11.50am a 2.30pm	
Mini-seminar: After Your Degree	11.20am a 2.00pm	
Postgraduate Research opportunities in Education and Childhood Studies	12.30pm-1.00pm	
Make a difference: Train to Teach	12.30pm-1.00pm	
ASTUDIAETHAU GWYBODAETH		
Undergraduate Degrees in Information Studies at Aberystwyth	10.30am-11.00am	Ystafell 1.64, P5 ③①
Qualifying for a Career: Opportunities in Information Management, Libraries and Archives	12.00pm -12.30pm	
ASTUDIAETHAU THEATR, FFILM A THELEDU		
Welcome and an introduction to studying BA Drama & Theatre Studies, BA Scenography & Theatre Design and BA Writing for Broadcasting, Media and Performance	10.00am-10.30am a 2.30pm-3.00pm	Sinema, Adeilad Parry-Williams ③
Welcome and an introduction to studying BA Film & Television Studies, BA Media & Communication Studies and BA Film Making	10.30am-11.00am a 2.00pm-2.30pm	
Croeso a chyflwyniad i astudio BA Drama ac Astudiaethau Theatr a BA Astudiaethau Ffilm a Theledu yn Aberystwyth trwy gyfrwng y Gymraeg	12.00pm-12.30pm	
Sample Lecture - Film, Television and Media	12.30pm-1.00pm	Stiwidio R Gerallt Jones, Adeilad Parry-Williams ③
Sample Lecture - Drama and Theatre	12.45pm-1.15pm	Sinema, Adeilad Parry-Williams ③
CELFYDDYD GAIN A HANES CELF		
Why study here?	11.00am a 2.00pm	Yr Ysgol Gelf, Adeilad Edward Davies ⑤①
What we teach and how we teach	12.15pm	
CYFRIFIADUREG		
What we teach and why we're different	11.00am-11.30am	Ystafell MP-0.15, , Adeilad y Gwyddorau Ffisegol ⑦
Sample Lecture	11.30am-12.00pm	
What it's like to be an Aber Computer Science student	1.30pm-2.00pm	Ystafell B23, Adeilad Llandinam
CYMRAEG AC ASTUDIAETHAU CELTAIDD		
Croeso	10.30am	Ystafell Seminar, 2 ^{ail} Lawr, Adeilad Parry-Williams ③
Cyflwyniad i astudio'r Gymraeg a Chymraeg Proffesiynol	10.45am	
Welcome / Croeso	11.45am	
Welsh for beginners and second language students; Irish and Celtic Studies at Aberystwyth	12.00pm	

Sgyrsiau	Pryd?	Ble?
DAEARYDDIAETH A GWYDDOR DAEAR (yn cynnwys CYMDEITHASEG)		
Studying Earth and Environmental Sciences	11.30am a 12.10pm	Ystafell A6, Adeilad Llandinam 5
Taster Session: Environmental Earth Science and Environmental Science	12.15pm-12.45pm	Adeilad Llandinam 5
Taster Session: Geography (I)	12.15pm-12.45pm	
Studying Geography	12.50pm - 1.25pm	Ystafell A6, Adeilad Llandinam 5
Taster Session: Geography (II)	1.30pm - 2.00pm	Adeilad Llandinam 5
Studying Sociology	11.40am - 12.10pm	Ystafell B22, Adeilad Llandinam 5
Taster Session: Sociology	12.15pm-12.45pm	Adeilad Llandinam 5
Astudio trwy gyfrwng y Cymraeg	11.00am-11.30am	Ystafell B20, Adeilad Llandinam 5
FFISEG		
Astudio Mathemateg neu Ffiseg drwy'r Gymraeg	10.00am-10.20am	Ystafell MP-0.11, Llawr Gwaelod, Adeilad y Gwyddorau Ffisegol 7
Laboratory Teaching Facilities	11.00am-11.30am	Ystafell MP-0.10, Adeilad y Gwyddorau Ffisegol 7
Welcome to the Department of Physics. An Overview of our Physics degree schemes and research; Studying at Aberystwyth: a student view	11.30am-12.30pm	
Taster Talk	2.00pm - 2.30pm	
GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL		
Gweithgaredd Rhyngweithiol	9.15am - 10.45am	Prif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol 24
Introduction to International Politics and our Department	11.00am-12.00pm a 2.30pm-3.30pm	Ystafell Steve Crichton, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol 24
Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg: sesiwn galw i mewn	10.30am-11.00am	Ystafell Cyfarfodydd, Adeilad, Gwleidyddiaeth Ryngwladol 24
Postgraduate Study Q&A	11.00am-11.30am	
Roundtable Discussion: Issues and Challenges in International Politics	12.15pm - 1.00pm	Ystafell Steve Crichton, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol 24
Sample Mini Lecture	1.45pm-2.30pm	
HANES A HANES CYMRU		
History in Action Workshop	10.30am-11.00am a 1.00pm-1.30pm	Ystafell Steve Crichton, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol 24
Studying History at Aberystwyth	11.15am-11.45am a 2.15pm-2.45pm	Ystafell A14, Adeilad Hugh Owen 4
Astudio Hanes yn Aberystwyth	11.15am-11.45am	Ystafell y Gortllewin, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol 24
Study Abroad and 4 year degree scheme	12.00pm-12.30pm	
IBERS (Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig)		
An Introduction to IBERS	10.00am a 1.00pm	Ystafell 0.26, Adeilad Edward Llwyd 8
Astudiaethau Uwchraddedig- Desg Wybodaeth IBERS	O 11.30am	Ystafell 0.30, Adeilad IBERS 27
Animal Behaviour, Marine & Freshwater Biology and Zoology	10.30am a 1.30pm	Ystafell 0.26, Adeilad Edward Llwyd 8
Biology and Microbiology	10.30am a 1.30pm	Ystafell 1.01, Adeilad Edward Llwyd 8

Sgyrsiau	Pryd?	Ble?
IBERS (Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig) parhad		
Equine Studies, Equine Science and Equine with Veterinary Biosciences	10.30am a 1.30pm	Ystafell 0.01, Adeilad Edward Llwyd (8)
Biochemistry, Genetics and Genetics & Biochemistry	11.00am a 2.00pm	Ystafell 1.01, Adeilad Edward Llwyd (8)
Biomedical Sciences and Human Biology & Health	11.00am a 2.00pm	Ystafell 0.31, Adeilad IBERS (27)
Sports & Exercise Science	10.30am a 1.30pm	Ystafell 0.31, Adeilad IBERS (27)
Animal Science & Veterinary Biosciences	11.00am a 2.00pm	Ystafell 0.26, Adeilad Edward Llwyd (8)
Wildlife Conservation, Ecology and Plant Biology	11.00am a 2.00pm	Ystafell 1.16, Adeilad Edward Llwyd (8)
Agriculture, with Animal Science and with Business Studies	11.00am a 2.00pm	Ystafell 0.01, Adeilad Edward Llwyd (8)
Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg	10.30am a 1.30pm	Ystafell 1.16, Adeilad Edward Llwyd (8)
IEITHOEDD MODERN		
Studying in the Department of Modern Languages	11.00am a 2.00pm	Ystafell D5, Adeilad Hugh Owen (4)
Introduction to our facilities and Language Taster Session	11.30am a 2.30pm	Ystafell BA8, Adeilad Hugh Owen (4)
MATHEMATEG		
Astudio Mathemateg neu Ffiseg drwy'r Gymraeg	10.00am-10.20am	Ystafell MP-0.11, Llawr Gwaelod, Adeilad y Gwyddorau Ffisegol (7)
An overview of our Mathematics Degree Schemes	10.30am-11.00am	
Taster Lecture	11.10am-11.30am	
SAESNEG AC YSGRIFENNU CREADIGOL		
Making the most of your Personal Statement	11.00am-12.15pm	Ystafell C43, Adeilad Hugh Owen (4)
Your Next Chapter: Undergraduate degrees in English and/or Creative Writing at Aberystwyth	12.45pm-1.15pm	Ystafell D5, Adeilad Hugh Owen (4)
Novel Beginnings Workshop: What we teach and how we teach	2.00pm-3.00pm	Ystafell C43, Adeilad Hugh Owen (4)
Find out more about studying our subjects		
Meet the tutors: Discussion forum for parents, guardians and supporters	2.00pm-3.00pm	Cyntedd yr Adran, Llawr D, Adeilad Hugh Owen (4)
SEICOLEG		
Psychology at Aberystwyth	12.00pm-12.30pm a 1.20pm-1.50pm	Sinema, Canolfan y Celfyddydau (2)
Y GYFRAITH A THROSEDDEG		
Welcome and 'Studying Law'	10.30am-11.30am a 1.30pm-2.30pm	Medrus 3, Llawr 1 st , Neuadd Penbryn (15)
Welcome and 'Studying Criminology'	10.30am-11.30am a 1.30pm-2.30pm	Medrus 4, Llawr 1 st , Neuadd Penbryn (15)
Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg yn y Gyfraith a Throsedddeg	11.30am-12.00pm	Medrus 3, Llawr 1 st , Neuadd Penbryn (15)
YR YSGOL FUSNES		
Welcome and Introduction to Studying at Aberystwyth Business School	10.30am-11.10am a 1.30pm-2.10pm	Ystafell C22, Adeilad Hugh Owen (4)
Subject Presentations	11.10am-11.40am a 2.10pm-2.40pm	Ystafell C22 a C4 Adeilad Hugh Owen (4)
Mini-lectures	12.00pm-12.20pm a 2.40pm - 3.00pm	Ystafell C22 Adeilad Hugh Owen (4)
Optional Individual meeting with an academic staff member	11.40am-12.00pm a 2.40pm-3.00pm	Gweler tudalen 22 am fwy o fanylion



Llety

Tai / Preswylfeydd Agored

Mae nifer o breswylfeydd ar gael i'w gweld heddiw (rhwng 9.00am a 4.30pm) ac mae croeso mawr i chi ymweld â ni. Mae'r preswylfeydd canlynol ar gael i chi eu gweld yn ystod y diwrnod:



36

Fferm Penglais 36

Er mwyn gweld y llety newydd hwn sy'n llety hunan arlwygo gydag adnoddau en suite, ewch i Y Sgubor yn Fferm Penglais.



20

Pentre Jane Morgan 20

Er mwyn gweld y llety hwn sy'n llety hunan arlwygo gydag adnoddau a rennir, ewch i Y Sgubor yn Fferm Penglais.



62

Gellir cerdded i Fferm Penglais (trwy Pentre Jane Morgan) o gampws Penglais trwy ddilyn y llwybr cerdded dros y bont. Neu, bydd bws gwennol rheolaidd ar gael trwy'r dydd o safle bws Campws Penglais.



15

Rosser 18

Er mwyn gweld y llety hwn sy'n llety hunan arlwygo gydag adnoddau a rennir, ewch i'r Lounge @ Rosser.



18

Fe ellir cerdded i'r Lolfa @ Rosser sydd wedi ei lleoli ger adeilad Parry-Williams ar Gampws Penglais.



Neuaddau Glan-y-Môr 62

Er mwyn gweld y llety hwn sy'n llety hunan arlwygo gydag adnoddau a rennir, ewch i Neuadd Pumlumon.



Gall ymwelwyr barcio ar y prom neu mae bws yn mynd o safle bws Campws Penglais i lawr i'r prom. Gweler amserlen y bws ar dudalen 42.

Llety Cymraeg Penodedig Pantycelyn

Mae neuadd Gymraeg enwog Aberystwyth i siaradwyr a dysgwyr yr iaith yn cael ei hadnwyddu'n llwyr ar hyn o bryd er mwyn gallu darparu ystafelloedd gwely/astudio sengl en-suite gyda wi-fi a chyfleusterau cymunedol i'w rhannu. Mae'r Brifysgol yn gweithio tuag at ailagor Neuadd Pantycelyn ym mis Medi 2020.

O Fedi 2020 ymlaen, Pantycelyn fydd y neuadd benodedig ar gyfer myfyrwyr sydd eisiau byw drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae fflatiau penodedig hunanarlwygo wedi'u neilltuo yn Fferm Penglais ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno byw drwy gyfrwng y Gymraeg, ynghyd ag ystafelloedd i fyfyrwyr Cymraeg gyfarfod i gymdeithasu. Gweler fwy o wybodaeth uchod am sut i ymweld â Fferm Penglais.



OS NA ALLWCH YMUNO Â NI, NEU OS YDYCH YN AWYDDUS I WELD UN O'R NEUADDAU ERAILL, BETH AM FYND AR UN O'N TEITHIAU PANORAMIG SYDD AR GAEL AR Y WE: WWW.ABERAC.UK/CY/ACCOMMODATION

Desg Wybodaeth

Ffair Wybodaeth, Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau ②

➤ 9.00am - 3.30pm

Desg Wybodaeth a deunydd arddangos yn ymwneud â llety yn Aberystwyth. Bydd staff wrth law rhwng 9.00am-3.30pm i ateb ymholiadau ynglŷn â phreswylfeydd neu lety yn y sector breifat. Cymerwch gopi o'r llyfryn "Llety yn Aberystwyth" am wybodaeth ynglŷn â neuaddau gwahanol.


Sgyrsiau

YOUR HOME FROM HOME

Sgwrs ar ddarpariaeth llety Prifysgol Aberystwyth.

Darlithfa A12, Adeilad Hugh Owen ④

➤ 10.10am - 10.40am, 11.10am - 11.40am
a 1.10pm - 1.40pm



Canolfan y Celfyddydau

Adeilad Canolfan y Celfyddydau ² Ar agor o 8.00am – tan yr hwyr

 @aberystwytharts



Croeso i ymwelwyr: www.aberystwythartscentre.co.uk

Mae'r Ganolfan hon wedi ennill gwobrau ac mae ganddi rhai o'r adnoddau gorau yng Nghymru a thu hwnt. Mae'n cynnig rhaglen brysur o berfformiadau byw, ffilmiau, digwyddiadau arbennig, arddangosfeydd, cyrsiau a gweithdai drwy gydol y flwyddyn. Mae'r adnoddau yn cynnwys neuadd gyngerdd, theatr, sinema a stiwdio, orielau a lleoedd i gynnal gweithdai megis y stiwdio serameg, Digilab, y stiwdio ddawns, yr ystafelloedd ffotograffeg, y stiwdio rddio ac ystafelloedd 2D a 3D.

Siop Gwaith Crefft a Dylunio

➤ Ar agor 9.00am – 8.00pm

Amrywiaeth eang o grefftwaith gan wneuthurwyr yng Nghymru, gemwaith, cardiau, yn ogystal â rhoddion dylunwaith gan Orla Kiely, Paperblanks, poteli Chilly's a Swig, Moleskine a llawer mwy. Gyda chymaint o ddewis, dyma'r union le i ddod o hyd i'r anrheg ddelfrydol i'ch ffrindiau a'ch teulu neu efallai i chi'ch hunan.

Y Siop Lyfrau

➤ Ar agor 9.00am – 6.00pm

Mae Siop Lyfrau'r Brifysgol, sydd wedi ei lleoli yng Nghanolfan y Celfyddydau, yn cynnig gostyngiad 10% oddi ar lyfrau academiaidd i'r holl fyfyrwyr ac mae staff wrth law i ateb unrhyw ymholiadau a rhoi cyngor ar ba lyfrau sydd eu hangen i'ch cwrs chi. Mae'r dewis eang o stoc hefyd yn cynnwys llyfrau celf, ffuglen gyfoes, y gwerthwyr gorau, llyfrau ffordd-o-fyw a gemau.

Caffi, Caffi'r Piazza a Barau

Mae sawl dewis yng Nghanolfan y Celfyddydau, yn cynnig amrywiaeth o fwydydd a diod. Gweler tudalen 44 am ragor o wybodaeth.

Arddangosfeydd

PRIF GYNTEDD

Hydref: Cartref - Archwiliad amrwyliol o 'Cartref'

ORIEL 1

Hydref: Edeifion Indiaidd: Ysbrydoliaeth Tecstilau
Tachwedd: Y Llinell Brintiedig

ORIEL 2

Hydref: Ruth Koffer
Tachwedd: Nifer o Leisiau, Un Genedl

ORIEL Y CAFFI

Hydref: Arbrofwyr
Tachwedd: Donald Pleasance Yn 100

ORIEL CERAMEG

Batiau Glud a Phapur Sidan

Y LLYGAID – Dewis o ffilmiau digidol.

Sinema

Ewch i www.aberystwythartscentre.co.uk/whatson/cinema i weld rhestr lawn o'r ffilmiau sydd i'w gweld.

Gwasanaethau Gwybodaeth

Llyfrgell Hugh Owen a Gwasanaethau Gwybodaeth, Adeilad Hugh Owen ④

🐦 @aberuni_gg



Ar agor 24 awr y dydd yn ystod y tymor; 8:30am - 5:30pm yn ystod y gwyliau

Mae croeso i chi ymweld â Llyfrgell Hugh Owen i edrych o gwmpas, neu i roi'ch traed fyny a bwrw golwg drwy bapur newydd, cylchgrawn neu gyfnodolyn. Bydd staff wrth ein Desgiau Ymholi yn barod i'ch helpu ac i ateb unrhyw gwestiwn. Boed am ein llyfrgelloedd, adnoddau ar-lein, gwybodaeth printiedig i gefnogi eich cwrs, darpariaeth cyfrifiadurol, mynediad di-wifr, rhwydwaith mewn neuaddau preswyl, cymorth a chefnogaeth ar gyfer eich holl anghenion cyfrifiadura. Mae gan ein gwefan ragor o wybodaeth am ein gwasanaethau a chyfleusterau: www.aber.ac.uk/cy/is/

Teithiau

Rydym yn cynnal teithiau llyfrgell byr i ymwelwyr yn Llyfrgell Hugh Owen rhwng 9.00am a 3.00pm yn ystod y Diwrnod Agored, gofynnwch wrth y Ddesg Ymholiadau.

Teithiau Llyfrgell Hugh Owen
Desg Ymholi, Adeilad Hugh Owen ④



Y Ganolfan Chwaraeon

Y Ganolfan Chwaraeon 9

@AberSport

www.aber.ac.uk/sportscentre



Dyma, yn llythrennol, guriad calon y Campws lle mae ein myfyrwyr, ein clybiau chwaraeon a'r Ganolfan Chwaraeon yn cydweithio'n agos ag Undeb y Myfyrwyr i sicrhau y cewch chi'r profiad gorau oll o ran chwaraeon ac ymarfer corff yn ystod eich cyfnod yn Aberystwyth. Mae'r 'Pecyn Aelodaeth Blatinwm 125' i fyfyrwyr yn cynnig gwerth gwyb am arian ac yn agor y drws ar ystod eang o weithgareddau chwaraeon, iechyd a lles.

Mae'r Ganolfan Chwaraeon yn parhau i adeiladu ar ei buddsoddiad diweddar o £700,000 gan gynnig cyfleusterau ffitrwydd o'r radd flaenaf mewn pum ystafell ffitrwydd arbenigol. Rydym wedi ailwampio'r pwll nofio a'r ystafelloedd newid yn ddiweddar, wedi gosod lloriau newydd lletgrog yn y neuadd chwaraeon amlbwrpas a'r cawell chwaraeon, wedi gosod matiau a gafaellion ar gyfer y Wal Ddringo, ac mae'r Stiwdio Ddawns wedi cael ei hadnewyddu'n llwyr o'r llawr i'r nenfwd.

Mae ein hadnoddau awyr-agored yn cynnwys ein harwyneb cystadlu newydd 3G byr a maes hyfforddi 3G - y ddau dan lifoleuadau - trac rhedeg 2-lôn 400 metr, canolfan farchogaeth, 48 erw o feysydd chwaraeon, wicedi criced gwair a ffugwair, yn ogystal ag adnoddau arbennig i chwaraeon dŵr.

Rydym yn cynnig dros 65 o ddosbarthiadau yr wythnos yn rhan o'n rhaglen iechyd a lles 'FitRhwydd' gyda hyfforddwyr cymwys a phrofiadol yn cynnig ystod o ddosbarthiadau ffitrwydd ar bob lefel. Ein nod yw ysbrydoli ac ysgogi'r holl fyfyrwyr i gadw'n heini yn eu bywyd bob dydd.

Bydd staff ar gael trwy gydol y dydd i ateb unrhyw gwestiwn ac i'ch tywys o gwmpas.

Nofio *AM DDIM* i bob ymwelydd yn ystod ein Diwrnod Agored

**BYW
GYDA NI
CADW'N HEINI
GYDA NI**

I fyfyrwyr sy'n cychwyn yn 2020

Darparu Aelodaeth Platinwm **RHAD AC AM DDIM** i'r Ganolfan Chwaraeon ar gyfer eich iechyd a lles.

Mae'n aelodaeth Platinwm yn cynnwys mynediad anghyfyngedig i'r gampfa, y pwll nofio, y saunariwm, y wal ddringo a phob dosbarth ymarfer corff, iechyd a lles ar gyfer grwpiau.



Undeb Myfyrwyr Aberystwyth (UMABer)



@UMABerSU

@UMCA_

Galwch draw i gyfarfod tîm UMABer rhwng **9:00am – 4:00pm** heddiw er mwyn darganfod yr hyn sydd gan UMABer i'w gynnig i fyfyrwyr Aber.



Mae holl fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn aelodau awtomatig o UMABer.

Dan arweiniad myfyrwyr, gyda chymorth tîm o staff, mae Undeb y Myfyrwyr am i fyfyrwyr Aber fwynhau bywyd myfyriwr a bod yn barod am unrhyw beth. Rydym yn gweithio i sicrhau bod myfyrwyr Aber yn cael taith myfyriwr anhygoel, eu bod yn hapus, yn iach, bod ganddynt y pwerau angenrheidiol, eu bod yn ffurfio cyfeillgarwch sy'n parhau a bod ganddynt ddyfodol disgrair.

Mae UMABer yn gwneud yr addewidion canlynol i fyfyrwyr:

1. Rydyn ni'n addo eich paratoi ar gyfer eich antur nesaf
2. Rydyn ni'n addo mai chi gaiff y gair olaf
3. Rydyn ni'n addo y byddwn ni'n eich helpu i fod mor hapus ac iach â phosib
4. Rydyn ni'n addo y byddwn ni'n tyfu gyda'n gilydd fel teulu Aber

Cyfleoedd i fyfyrwyr:

Caiff yr addewidion hyn eu gwredu drwy ddarparu myfyrwyr ag amrywiaeth o fanteision a chyfleoedd i gyfranogi, gan gynnwys:

- Helpu myfyrwyr i gwrdd â phobl newydd, gwneud ffrindiau ac adeiladu cymunedau.
- 130 o Glybiau Chwaraeon a Chymdeithasau - gan gynnwys UMCA sy'n cynrychioli myfyrwyr Cymraeg a chymdeithasau academiaidd, neu gyfle i ddechrau grŵp eich hun.



- Cynorthwyo, hyfforddi a gweithio gyda mwy na 300 o Gynrychiolwyr Academiaidd i greu effaith cadarnhaol ar gyfer myfyrwyr ar lefel cwrs.
- Cyngor cyfeillgar, di-duedd a chyfrinachol yn rhad ac am ddim.
- Llais sy'n cynrychioli holl fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.
- Cyfleoedd i fyfyrwyr ymgyrchu ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw.
- Mannau addas ar gyfer astudio, cyfarfod a chymdeithasu

Er mai'r Brifysgol sy'n ein cyllido i raddau helaeth, mae UMABer yn elusen annibynnol sy'n gweithio er budd myfyrwyr, gan ganolbwyntio ar weithgareddau'r aelodaeth a datblygiad myfyrwyr.

Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth

yw UMCA. Cafodd ei sefydlu yn 1973 (cyn Bangor!) er mwyn gwarchod hawliau'r myfyrwyr Cymraeg, ac i sicrhau ei fod yn bosib byw bywyd trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Brifysgol. Erbyn heddiw mae llais UMCA yn hynod bwysig o fewn y Brifysgol ac mae'r Llywydd yn eistedd ar sawl pwyllgor dylanwadol iawn. Mae UMCA yn trefnu nifer o weithgareddau a digwyddiadau yn ystod y flwyddyn gan gynnwys:

- Wythnos y Glas UMCA
- Y Ddawns Rhyng-gol
- Noson adloniant Cymraeg misol 'Sŵn'
- Clybiau chwaraeon 'Y Geltaidd' a grwpiau fel Aelwyd Pantycelyn

Gallwch fod yn sicr fod UMCA yn gwneud popeth i wneud yn siŵr eich bod chi yn cael y profiad gorau posib ym Mhrifysgol Aberystwyth. I gael gwybod mwy dilynwch UMCA ar Facebook, Twitter ac Instagram.

Y Gwasanaeth Cyngori

Mae Gwasanaeth Cyngori UMAber yn darparu cyngor, gwybodaeth, eiriolaeth a chynrychiolaeth i holl fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth. Rydym yn cynnig cyngor am ddim mewn amgylchedd proffesiynol, cyfeillgar a hamddenol ar

amrywiaeth o faterion academiaidd, ariannol a llety. Fyddwn ni ddim yn eich beirniadu, ac rydym yma i'ch helpu chi cymaint â phosib beth bynnag fo'ch problemau.

Teithiau

Dewch draw at y Ddesg Groeso wrth i chi gyrraedd Undeb y Myfyrwyr ble bydd aelod o dîm UMAber yn ateb unrhyw gwestiwn sydd gennych a cewch daith o amgylch yr adeilad (gweler tud 10 am fanylion pellach). Croeso i chi gysylltu gyda ni:

gwefan: www.umaber.co.uk

e-bost: union@aber.ac.uk

ffôn: 01970 621700



Adrannau Academaidd

Cyflwyniadau, Sgyrsiau a Gweithgareddau

Addysg

Yr Ysgol Addysg, Penbryn 5 (P5) 30

 @EducationAtAber

Desgiau Gwybodaeth

Graddau Israddedig ac Ymchwil Uwchraddedig

Bydd staff a Llysgenhaddon ar gael i drafod cyrsiau ac i ateb unrhyw ymholiad.

TAR (Tystysgrif Addysg i Raddedigion)

Dewch i'n gweld yn y Ffair Wybodaeth yn y Neuadd Fawr (gweler tudalen 5). Cynhelir sgwrs yn P5 am 12.30pm (gweler isod)

Sgyrsiau

UNDERGRADUATE DEGREES IN EDUCATION AND CHILDHOOD STUDIES AT ABERYSTWYTH

Darlithfa A14, Adeilad Hugh Owen 4

> 10.00am - 10.30am ac eto yn

Y Sinema, Canolfan y Celfyddydau 2

> 12.40pm - 1.10pm

Astudiaethau Plentyndod (X320)

Mae'r radd yn cynnig cyfle i archwilio i rai o'r materion mwyaf hanfodol a heriol mae plant yn eu gwynebu yn yr unfed ganrif ar hugain.

Addysg Anrhydedd Sengl (X302)

Mae Addysg fel pwnc yn cynnig dealltwriaeth o bolisi cenedlaethol a rhyngwladol, yn ogystal â dulliau addysgu a'r ystafell dosbarth.

Addysg Prif bwnc, Pwnc cyfun, Is-bwnc (gweler safle gwe).

Gall Addysg hefyd gael ei astudio fel Prif bwnc, pwnc cyfun neu is-bwnc, wedi cyfuno â phynciau eraill, ar gyfer cymhwyster BA (Anrhydedd) neu BSc (Anrhydedd).

Seminarau byr

BUT IS EDUCATION A REAL SUBJECT?

P5 30

> 10.50am a 1.30pm

Mae gan Addysg rôl hanfodol i'w chwarae yn y byd modern. Mae'r sesiwn hon yn ystyried rôl astudiaeth o Addysg o ran gwella bywydau unigolion a chymunedau. Croeso i bawb. Bydd yn para oddeutu 20 munud.

WHY STUDY CHILDHOOD?

